# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Cyfarfod dros Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Gorffennaf 2022

Amser: 10.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat a chofrestru (10:30 - 11:00)**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(11:00)

**2 Papurau i'w nodi**

**2.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch diweddariad ar argymhelliad 7 o'r adroddiad 'Dyled a'r Pandemig'**

(Tudalennau 1 - 3)

**3 Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer y Cynghorwr Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

(11:00-12:00)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (iv) ac (ix) i wahardd y cyhoedd o eitemau 5 a 10 ar yr agenda.**

**5 Trafod y dystiolaeth a'r adroddiad drafft**

(12:00 - 12:30)

**EGWYL (12:30-13:30)**

## 6 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), sesiwn dystiolaeth 3 – cyflogwyr y sector preifat

(13.30 – 14.20) (Tudalennau 4 – 23)

Leighton Jenkins, CBI Cymru

Ben Cottam, FSB Cymru

Paul Slevin, Siambrau Cymru

Richard Shelby, Sefydliad y Cyfarwyddwyr

**EGWYL: (14:20- 14:35)**

## 7 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), sesiwn dystiolaeth 4 – undebau llafur (1)

(14.35 – 15.25)

Nisreen Mansour, TUC

Bethan Thomas, UNSAIN

Darren Williams, PCS

**EGWYL: (15:25- 15:40)**

## 8 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), sesiwn dystiolaeth 5 – undebau llafur (2)

(15.40 – 16.30)

Dr Phil Banfield, BMA

Mary Williams, UNITE

Kelly Andrews, GMB

**EGWYL: (16:30- 16:45)**

9 **Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), sesiwn dystiolaeth 6 – Sefydliad Bevan**

(16.45 – 17.15)

Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan

10 **Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): ystyried y dystiolaeth**

(17:15- 17:30)

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

28 Mehefin 2022

Annwyl Jenny

Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol mewn perthynas ag argymhelliad 7 yr adroddiad ar Ddyled a'r Pandemig a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021.

Mae argymhelliad 7 yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru archwilio dichonoldeb cyflwyno 'coelcerthi dyled' mewn perthynas ag agweddau ar ddyledion y sector cyhoeddus, gan ddefnyddio tystiolaeth o Gymru a thu hwnt, ac y dylai ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'i gasgliadau erbyn diwedd mis Mehefin 2022.

Mae swyddogion Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) a Pholisi wedi bod yn trafod y ffordd orau o fwrw ymlaen â hyn ac maent wedi dod i'r casgliad y dylai'r ffocws fod ar ddyledion i awdurdodau lleol yng Nghymru, gan fod dyledion i gyrff cyhoeddus eraill y tu allan i gwmpas Llywodraeth Cymru.

Byddwch yn falch o nodi bod gennym nifer o adolygiadau ar y gweill sy'n ystyried dyledion awdurdodau lleol gan gynnwys gwerthusiad o ymyriadau â'r dreth gyngor i gefnogi pobl sy'n agored i niwed y gwnaethom gomisiynu Policy in Practice i'w gynnal yn ddiweddar. Bwriedir cyhoeddi'r gwerthusiad ddiwedd y flwyddyn hon, a bydd yn ystyried y defnydd o brotocol y dreth gyngor, i ba raddau y mae pwerau disgresiwn (e.e. dileu dyledion) yn cael eu defnyddio, ac yn nodi arfer da. Yn ogystal â'r protocol arfer da, bydd y gwerthusiad hefyd yn edrych ar weithredu'r eithriad ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal (o dan 25 oed), safoni'r weithdrefn ymgeisio ar gyfer esemptiad Nam Meddyliol Difrifol a dileu traddodi fel dull gorfodi ar gyfer ôl-ddyledion y dreth gyngor.

Bydd Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd yn lansio adroddiad newydd yn seiliedig ar ymchwil i brofiadau pobl o gasglu dyledion y dreth gyngor yng Nghymru ar 6 Gorffennaf a byddaf yn rhannu hyn gyda chi unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran edrych ar y dystiolaeth o'r tu allan i Gymru, mae swyddogion yn archwilio opsiynau ar gyfer cynnal adolygiad posibl o'r dystiolaeth bresennol o’r hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill a beth yw'r canlyniadau. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi mwy o arweiniad ar yr hyn y mae'r pwyllgor yn gobeithio ei gyflawni fel y gellir ystyried hyn fel rhan o unrhyw weithgarwch sy'n cael ei ddatblygu.

Yn gywir



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon